
Law Commission
Reforming the law




# Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru. Beth ydy eich barn am ein syniadau i newid y gyfraith ar gyfer Tribiwnlysoedd Datganoledig




Fersiwn Hawdd Deall o:
Papur Ymgynghori Cryno: Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru.

# Beth sydd yn y papur hwn — Tudalen



Rhagarweiniad 1



Sut i ddweud wrthym ni beth ydy eich barn? 5





Pam fod angen edrych ar y gyfraith ac ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 7



Ein prif syniadau ar gyfer newid a chwestiynau i chi 9



1. Nodi’n glir pa dribiwnlysoedd sy’n rhai datganoledig 11



2. System dribiwnlysoedd i Gymru 14




3. Apelio 19





**4.** Y rheolau ar sut y mae tribiwnlysoedd yn gweithio **25**




**5.** Pwy sy'n penderfynu pwy fydd yn aelodau o dribiwnlysoedd **33**



**6.** Cwynion am dribiwnlysoedd **37**



**7.** Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru **44**



**8.** Uned Tribiwnlysoedd Cymru **46**




**9.** Cadw barnwyr yn annibynnol **48**




Ystyr y geiriau hyn **50**

Ni ydy **Comisiwn y Gyfraith** ar gyfer Cymru a Lloegr.



Rydyn ni'n annibynnol (nid yn rhan o'r llywodraeth).




Gwnawn awgrymiadau i'r Llywodraeth ar newid cyfreithiau yng Nghymru a Lloegr.





Gofynnwyd i ni edrych ar y cyfreithiau ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru.

## Rhagarweiniad




Rydyn ni eisiau gwybod beth ydy eich barn chi amdanynt.



Os nad ydych yn cytuno gyda phenderfyniad a wnaed gan gorff cyhoeddus, mae **tribiwnlys** yn gallu edrych ar y mater eto a gwneud penderfyniad terfynol y mae'n rhaid i bawb gytuno iddo.



Pwerau **datganoledig** ydy pethau y gall Senedd Cymru ei wneud heb ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.



Dyma'r prif bethau y gofynnwyd i ni edrych arnyn nhw:

- sut y gall tribiwnlysoedd weithio'n **deg ac yn dda**




- pa **reolau** y dylai tribiwnlysoedd eu dilyn




- pwy ddylai ddewis **aelodau** tribiwnlysoedd



- sut y gall pobl **gwyno neu apelio** os nad ydyn nhw'n hapus â phenderfyniad tribiwnlys.



Fersiwn Hawdd Deall o'n papur ar **Ymgynghoriad ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru** ydy hwn.




Oherwydd ei fod yn sôn am y gyfraith, mae dipyn o eiriau anodd yn dal i fod ynddo. Mae'r geiriau hyn mewn **teip tywyll** gyda rhestr o beth maen nhw'n ei feddwl yn y cefn.

# Rhagarweiniad




Mae’r papur hwn yn cynnwys cwestiynau pwysig i chi feddwl amdanynt. Bydden ni’n hoffi gwybod eich atebion i’r cwestiynau hyn.



Meddyliwch yn ofalus wrth ateb y cwestiynau. Peidiwch â rhoi gwybodaeth i ni fydd yn rhoi gwybod i bobl eraill pwy ydych chi, neu am bwy ydych yn sôn.

# Sut i ddweud eich barn




Mae'r ymgynghoriad yn sôn am y cyfreithiau ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosib ddarllen y papur hwn a dweud beth maen nhw'n feddwl ohono.




Mae'r papur llawn ar gael yn:
**https://www.lawcom.gov.uk/tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru/**

Nid dogfen Hawdd Deall ydy hon.





Mae angen i ni glywed gan bobl erbyn **19 Mawrth 2021**.



Gallwch ddweud beth ydy eich barn am hyn drwy:




Llenwi’r ffurflen ar-lein yma: **https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/**



E-bostio: **DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk**




Postio eich sylwadau atom yn:
**The Devolved Tribunals Team**
**Law Commission**
**1st Floor, 52 Queen Anne’s Gate**
**London. SW1H 9AG.**



Ar ôl i ni ddarllen sylwadau pawb, byddwn yn penderfynu beth i’w awgrymu i’r Llywodraeth.

# Pam fod angen i ni edrych ar y gyfraith a thribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru





Cafodd **tribiwnlysoedd** yng Nghymru eu sefydlu dros nifer o flynyddoedd. Maen nhw’n cael eu rhedeg gan wahanol gyfreithiau ac yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod yr holl **dribiwnlysoedd datganoledig** yn gweithio’n dda ac yn dod at ei gilydd mewn un system.




Y Llywodraeth yn San Steffan sy’n dal i wneud y rheolau ar **dribiwnlysoedd** sy’n effeithio ar bob rhan o’r Deyrnas Unedig.




Ond Llywodraeth Cymru sy’n gwneud cyfreithiau ar **dribiwnlysoedd datganoledig** sy’n effeithio ar Gymru’n unig.




Gall hyn fod yn ddryslyd.




**Llywydd Tribiwnlysoedd** Cymru sy’n gwneud yn siŵr fod **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru’n gweithio’n iawn. Mae angen rheolau clir ar beth y mae’r person yma’n gallu, a ddim yn gallu, ei wneud.



**Uned Tribiwnlysoedd Cymru** sy’n helpu rhai o **dribiwnlysoedd datganoledig** Cymru i redeg yn iawn.




Ar hyn o bryd mae’r uned yma’n rhan o Lywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn edrych ar lawer o benderfyniadau sy’n cael eu gwneud gan y llywodraeth, neu gan gynghorau lleol. Y cwestiwn a ofynnwn ydy, a ddylai’r uned fod yn fwy annibynnol.

## Ein prif syniadau ar gyfer newid, a chwestiynau i chi




Ein prif syniadau ar gyfer newid y gyfraith ar **dribiwnlysoedd datganoledig** ydy:


1. Dweud yn glir i ba **dribiwnlysoedd datganoledig** y mae'r cyfreithiau hyn yn berthnasol, ac i ba dribiwnlysoedd nad ydy'r cyfreithiau hyn yn berthnasol




2. Dod â **thribiwnlysoedd** at ei gilydd yn un system symlach



3. Delio ag **apêl** i bob **tribiwnlys datganoledig** yn yr un ffordd





4. Cael y rheolau ar gyfer pob **tribiwnlys datganoledig** i weithio'r un fath, lle mae hynny'n bosib




**5.** Cael rheolau clir ar bwy ddylai ddewis aelodau **tribiwnlysoedd**



6. Edrych ac ymchwilio i gwynion am bob **tribiwnlys datganoledig** yn yr un ffordd




7. Gwneud **Uned Tribiwnlysoedd Cymru'n** annibynnol o Lywodraeth Cymru.



Yn y rhan nesaf o'r papur hwn, byddwn yn egluro ein syniadau'n fwy manwl ac yn gofyn eich barn amdanynt.

## 1. Nodi'n glir pa dribiwnlysoedd sy'n rhai datganoledig




Yn ein barn ni, **tribiwnlys** ydy unrhyw sefydliad:

- sy'n setlo dadleuon ac edrych ar benderfyniadau cyrff cyhoeddus




- sy'n gwneud penderfyniad terfynol.




**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno gyda hyn?

Bod **tribiwnlysoedd datganoledig** neu **yng Nghymru'n** gwneud penderfyniadau dim ond ar bethau sy'n effeithio ar Gymru.





Mae'r gyfraith yn dweud bod saith **tribiwnlys** yng Nghymru.

Maen nhw'n edrych ar benderfyniadau ar:




1. Tir amaethyddol



2. Iechyd meddwl



3. Adeiladau preswyl




4. Addysg



5. Arolygiadau ysgolion a meithrinfeydd




6. Aelodau o gynghorau sy'n torri'r rheolau ar sut ddylen nhw ymddwyn




7. Yr iaith Gymraeg


Yn ein barn ni, dylai **tribiwnlysoedd datganoledig** hefyd gynnwys:




- **Tribiwnlys Prisio Cymru** sy'n penderfynu faint ydy gwerth eiddo er mwyn gweithio allan treth y cyngor neu drethi busnes




- paneli (grwpiau o bobl) sy'n penderfynu ar **dderbyn** plant i ysgolion





- paneli sy'n penderfynu ar **wahardd** plant o ysgolion



## Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno gyda'n syniadau ar gyfer pa **dribiwnlysoedd** sy'n rhai **datganoledig**?




**Cwestiwn 3**

Ydych chi'n cytuno bod **tribiwnlysoedd** neu sefydliadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau ddim yn **dribiwnlysoedd datganoledig?**

## 2. System dribiwnlys i Gymru



Ar y funud mae yna **dribiwnlys** mawr sy'n dod ag amryw byd o **dribiwnlysoedd** yn y Deyrnas Unedig at ei gilydd.



Yn ein barn ni, gallai **tribiwnlysoedd datganoledig** Cymru uno i greu un **tribiwnlys** mawr i Gymru.



Byddai gwahanol rannau o'r **tribiwnlys** mawr hwn yn edrych ar wahanol fathau o benderfyniadau.



Byddai hyn yn ei gwneud yn haws edrych ar wahanol achosion heb orfod sefydlu **tribiwnlys** newydd.




Byddai **tribiwnlys** annibynnol yn edrych ar benderfyniadau'n ymwneud ag ysgolion, neu faint ydy gwerth eiddo. Nid y cyngor lleol a wnaeth y penderfyniad.




Gallai hyn fod yn haws a thecach gyda phenderfyniadau ar eiddo a **derbyn plant** i ysgolion.





Ond gallai fod yn anodd i baneli sy'n edrych ar **dderbyn plant** i ysgolion. Dim ond yn y gwanwyn y mae'r paneli hyn yn brysur ac mae angen arbenigwyr lleol sy'n adnabod yr ysgolion yn eu hardal.




Byddai hefyd yn bwysig i’r **tribiwnlys** mawr ddefnyddio sgiliau arbenigwyr sy’n gweithio mewn gwahanol **dribiwnlysoedd** yn barod.



Ar y funud, mae’n anodd dweud beth ddylai gwahanol rannau o **dribiwnlys** mawr newydd fod.




Mae gennym ni rai syniadau. Ond teimlwn y dylai gael ei sefydlu mewn ffordd sy’n ei gwneud yn hawdd ychwanegu rhannau eraill os oes angen.



### Cwestiwn 4

Ydych chi’n cytuno gyda’r syniad o ddod â’r holl **dribiwnlysoedd datganoledig** at ei gilydd yn un **tribiwnlys** mawr?





## Cwestiwn 5

Ydych chi’n cytuno y dylai **Gweinidogion Cymru** weithio gyda **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** i greu cyfreithiau i sefydlu un **tribiwnlys** mawr o wahanol rannau?




## Cwestiwn 6

Ydych chi’n cytuno y dylai’r **Tribiwnlys Prisio i Gymru** fod yn rhan o’r un **tribiwnlys** mawr?





## Cwestiwn 7

Ydych chi’n cytuno y dylai paneli sy’n penderfynu ar **wahardd plant** o ysgolion uno gyda **thribiwnlysoedd** addysg eraill a bod yn rhan o’r un **tribiwnlys** mawr?




## Cwestiwn 8

Ydych chi’n cytuno, am y tro beth bynnag, na ddylai paneli **derbyn plant** i ysgolion fod yn rhan o’r **tribiwnlys** mawr?



## Cwestiwn 9

Ydych chi’n cytuno y dylai **tribiwnlysoedd** eraill sy’n gwneud penderfyniadau am ysgolion a meithrinfeydd gyfuno fel rhan o’r un **tribiwnlys** mawr?



## Cwestiwn 10

Ydych chi’n cytuno y dylai’r holl **dribiwnlysoedd** sy’n gwneud penderfyniadau am eiddo preswyl gyfuno i fod yn rhan o’r **tribiwnlys** mawr?




## Cwestiwn 11

Ydych chi’n meddwl y dylai fod un rhan o’r **tribiwnlys** mawr newydd sy’n gwirio penderfyniadau eraill y llywodraeth? Os dylai, pa **dribiwnlysoedd** ydych chi’n meddwl ddylai ddod at ei gilydd i wneud hyn?



### Cwestiwn 12

Ydych chi'n meddwl y dylai'r **tribiwnlysoedd** tir amaethyddol ac eiddo preswyl ddod at ei gilydd fel un rhan o'r tribiwnlys mawr i edrych ar bob math o eiddo?



### Cwestiwn 13

A ddylai unrhyw **dribiwnlysoedd** datganoledig eraill ddod at ei gilydd fel rhan o'r **tribiwnlys** mawr?

## 3. Apelio




Os nad ydych yn hapus gyda phenderfyniad gan **dribiwnlys,** gallwch **apelio.** Mae angen caniatâd arnoch i wneud hyn. Mae **apeliadau** yn erbyn gwahanol **dribiwnlysoedd** yn cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol.



Yn ein barn ni byddai'n symlach dod â phopeth at ei gilydd fel eich bod yn **apelio** yn yr un ffordd ac i'r un sefydliad yn erbyn penderfyniadau gan unrhyw **dribiwnlys.**

Mae gennym bedwar awgrym ar gyfer beth allai ddigwydd:




**1. Gadael pethau fel y maen nhw**

Mae barnwyr sy'n arwain **tribiwnlysoedd** yn hapus gyda phethau fel y maen nhw.


Ond mae'n gymhleth i bobl sy'n defnyddio **tribiwnlysoedd** os ydyn nhw i gyd yn gweithio'n wahanol.

**2. Anfon unrhyw apêl i'r Llys Gweinyddol**




Gall y llys hwn edrych ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan lysoedd eraill, **tribiwnlysoedd** neu gyrff cyhoeddus.

Yn barod, mae'n edrych ar rai **apeliadau**, ond nid yw'n rhan o'r system **tribiwnlysoedd**.



### 3. Anfon pob apêl i'r Uwch-Dribiwnlys.

Mae'r Uwch-Dribiwnlys yn edrych yn barod ar lawer o benderfyniadau a wnaed gan **dribiwnlysoedd** eraill. Gallai fod yn haws iddo wrando **pob apêl.** Ond byddai'n parhau'r cysylltiad i'r system yn Lloegr.



### 4. Sefydlu Tribinlys Apêl newydd ar gyfer Cymru.

Gallai hyn wneud pethau'n haws. Ond efallai na fyddai digon o apeliadau i'w wneud yn werth sefydlu **tribiwnlys** newydd.



### Cwestiwn 14


Ydych chi'n cytuno y dylech fod yn gallu **apelio** yn erbyn penderfyniad gan unrhyw **dribiwnlys datganoledig** yn yr un ffordd?



## Cwestiwn 15

Os ydych chi’n cytuno, pwy ddylai wrando’r **apeliadau**;

1. Yr Uwch – Dribiwnlys
2. Y Llys Gweinyddol yng Nghymru
3. Tribiwnlys Apel newydd i Gymru




Nid oes gan rai **tribiwnlysoedd** ffordd benodol ar gyfer **apelio** yn erbyn eu penderfyniadau. Efallai y byddai’n rhaid sefydlu **tribiwnlysoedd** newydd i wrando’r **apeliadau** hyn.




## Cwestiwn 16

1. A ddylai’r rheolau ddweud sut y gall pobl **apelio** yn erbyn penderfyniadau gan y **tribiwnlysoedd** hyn?
2. Beth ddylai’r rheolau ddweud?
3. Pa **dribiwnlysoedd** ddylai gael apeliadau wedi eu gwrando fel hyn?
4. Ddylen ni symud i ffwrdd yn raddol o **dribiwnlysoedd** a thuag at weithio fel hyn?




Ar y funud nid oes ffordd benodol o **apelio** yn erbyn penderfyniadau **derbyn plant** i ysgolion neu **wahardd** plant o ysgolion. Credwn y dylai'r **apeliadau** hyn fod yn gyflym a hawdd fel nad yw plant yn colli allan ar fynd i'r ysgol.



### Cwestiwn 17

1. Ydych chi'n meddwl y dylai **apelio** yn erbyn penderfyniad gan **banel derbyn** i ysgolion fynd i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig?

2. Os ydych yn cytuno, pryd ddylai fod gan bobl hawl i **apelio**?




### Cwestiwn 18

Ydych yn meddwl y dylai fod pobl ond yn gallu **apelio** yn erbyn penderfyniad **derbyn i ysgolion** y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig os oes problem ddifrifol gyda sut y deliodd y tribiwnlys gyda'r mater?





Ar y funud, mae **apeliadau** yn erbyn gwahanol benderfyniadau gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru'n cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cael caniatâd i **apelio** yn erbyn penderfyniadau **asesu rhenti.**



### Cwestiwn 19


Ydych chi'n cytuno y dylid ond cael un ffordd o **apelio** yn erbyn pob penderfyniad gan Dribiwnlys Prisio Cymru? Os felly, pa ffordd?




### Cwestiwn 20

Ydych chi'n cytuno y dylai fod yr un rheolau ar gyfer cael caniatâd i **apelio** yn erbyn **asesiadau rhent** ag yn erbyn penderfyniadau eraill gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl?


## 4. Rheolau am sut y mae tribiwnlysoedd yn gweithio





Mae’r rheolau ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru’n hen ac wedi dyddio.



Byddai **tribiwnlysoedd** yn llawer haws i bawb pe baent yn gweithio’r un fath os yn bosib.




**Gweinidogion Cymru** sy’n gwneud y rheolau ar gyfer y rhan fwyaf o **dribiwnlysoedd**.





Ni allwn newid y rheolau hyn.

Ond gallwn awgrymu sut i wneud i’r rheolau weithio’n well.





Mae hyn yn cynnwys gwirio bod y rheolau’n gweithio’n dda a’u newid os oes angen eu diweddaru.




## Cwestiwn 21

Ydych chi’n cytuno y dylai’r rheolau ar gyfer **pob tribiwnlys datganoledig** ddweud bod yn rhaid i’r **tribiwnlys** weithio’n deg?




## Cwestiwn 22

Ydych chi’n meddwl y dylai rheolau bob **tribiwnlys datganoledig** gael enghraifft o beth ydy gweithio yn deg? Sut fath o enghreifftiau dylid eu cynnwys?




## Cwestiwn 23

Ydych chi’n meddwl y dylai’r rheolau ar gyfer **pob tribiwnlys datganoledig** ddweud y dylai pawb sy’n rhan o’r broses weithio gyda’i gilydd a helpu’r **tribiwnlys** i weithio’n deg?


Os felly, a ddylai hyn gynnwys y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl?




Mae rhai **tribiwnlysoedd** yn gallu gwirio eu penderfyniadau eu hunain a chywiro pethau os gwnaethant gamgymeriad. Mae hyn yn gynt a haws na gorfod apelio i **dribiwnlys** gwahanol.



Mae Covid-19 yn golygu bod rhai sefydliadau’n defnyddio **technoleg** fel bod pobl yn gallu aros adref a pheidio mynd i lefydd prysur.



Mae rhai **tribiwnlysoedd** yn e-bostio papurau swyddogol a defnyddio fideo i gynnal **gwrandawiadau o bell**, fel nad oes raid i bobl ddod at ei gilydd mewn un lle.




Credwn y bydd peth o hyn yn parhau ar ôl Covid-19 os yw’n helpu sefydliadau i weithio’n well.




## Cwestiwn 24

Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheolau adael i **bob tribiwnlys datganoledig** anfon papurau swyddogol allan drwy e-bost?





## Cwestiwn 25

Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheolau ganiatáu y **tribiwnlysoedd datganoledig** i adolygu eu penderfyniadau eu hunain?





## Cwestiwn 26


Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan **bob tribiwnlys datganoledig** yr un rheolau ar gyfer gwrandawiadau o bell?





Weithiau mae angen gwahanol reolau ar wahanol **dribiwnlysoedd datganoledig** ar sut y maen nhw'n gweithio. Er enghraifft, mae'r un bobl yn defnyddio Tribiwnlys Iechyd Meddwl Lloegr â Thribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru, felly rhaid i'r rheolau fod yr un fath i bob gwlad.





Ond mae pob **tribiwnlys** yn gwneud pethau fel anfon papurau swyddogol, a byddai'n haws i bawb pe bai'r rheolau'r un fath ar hyn. Ni fyddai'n rhaid i farnwyr ddysgu rheolau hollol newydd pe bydden nhw'n eistedd ar wahanol **dribiwnlysoedd.** Byddai'n haws i'r cyhoedd ei ddeall.




Byddai'n cymryd amser i ail-ysgrifennu'r holl reolau a meddwl pa rai ddylai fod yr un fath. Ein syniad ni yw cadw'r rheolau ar wahân, am y tro, ar gyfer pob **tribiwnlys datganoledig** i roi amser i bobl weithio ar hyn.





Ond credwn y gallai'r tair set o reolau ar gyfer y Tribiwnlys Eiddo Preswyl gael eu cyfuno'n un set o reolau.




### Cwestiwn 27


Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheolau ar gyfer **pob tribiwnlys datganoledig** fod yr un fath lle bo'n bosib?




## Cwestiwn 28


Ydy o’n broblem os yw’r rheolau ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** yn wahanol i’r rheolau ar gyfer y **tribiwnlys mawr**?

Sut ddylai **tribiwnlysoedd** ddelio gyda hyn?




## Cwestiwn 29

Ydych chi’n cytuno y dylai pob **tribiwnlys datganoledig** gadw ei set ei hun o reolau am sbel?




## Cwestiwn 30


Ydych chi’n cytuno y dylai fod ond un set o reolau ar gyfer y Tribiwnlys Eiddo Preswyl?




Y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd sy’n edrych ar reolau **pob tribiwnlys** yn y Deyrnas Unedig, i wirio eu bod yn ddiweddar ac yn gweithio’n dda.



Credwn y dylai fod pwyllgor fel hwn ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** Cymru.




Credwn mai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** yw’r person iawn i arwain y pwyllgor hwn a dewis pwy i fod arno.




Bydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ond yn gallu newid y rheolau os yw’r rhan fwyaf o aelodau’r pwyllgor neu **Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru** yn cytuno.



Credwn y bydd hefyd angen i Weinidogion Cymru gytuno i'r newidiadau.




## Cwestiwn 31

Ydych chi'n cytuno y dylai fod Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru?




## Cwestiwn 32

Ydych chi'n cytuno y dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** arwain Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru a dewis ei aelodau?




## Cwestiwn 33

Ydych chi'n cytuno y dylid cael rheolau i helpu **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** i ddewis y bobl iawn i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd?





**Cwestiwn 33**

Ai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** neu Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ddylai wneud y rheolau ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig**?



## 5. Pwy sy'n penderfynu ar aelodau tribiwnlysoedd

Rhaid i'r cyhoedd fod yn gallu gweld sut y mae aelodau o'r **tribiwnlysoedd datganoledig** yn cael eu dewis. Mae hyn yn eu helpu i ymddiried mewn **tribiwnlysoedd** a chredu eu bod yn annibynnol a theg.




Ond mae'r rheolau wedi newid dros amser ac mae gwahanol **dribiwnlysoedd** yn dewis aelodau mewn gwahanol ffyrdd.




Credwn y dylid dewis aelodau o **bob tribiwnlys datganoledig** yn yr un ffordd, gan berson neu sefydliad sydd:

- yn annibynnol a ddim yn rhan o'r llywodraeth neu gynghorau lleol



- mewn swydd uwch ac yn bwysig



- yn gallu gwirio bod y person yn iawn i fod ar y **tribiwnlys**.




Mae rhai pobl yn meddwl y dylai fod sefydliad ar wahân i benderfynu pwy ddylai aelodau o **dribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru fod. Ond mae'n debyg nad oes angen digon o waith i gyfiawnhau cael sefydliad newydd.




### Cwestiwn 35

Ydych chi'n cytuno y dylai'r un person neu sefydliad benderfynu ar aelodau **holl dribiwnlysoedd datganoledig Cymru**?



## Cwestiwn 36

Ydych chi'n cytuno mai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** ddylai benderfynu ar aelodau holl **dribiwnlysoedd datganoledig Cymru**?



Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy'n penderfynu ar farnwyr i lysoedd a **thribiwnlysoedd** yng Nghymru a Lloegr. Credwn y dylai'r Comisiwn hefyd ddewis aelodau ar gyfer **tribiwnlysoedd** eraill **a phaneli apêl** yng Nghymru. Ond gallai'r ffordd y maen nhw'n penderfynu fod yn rhy gymhleth i bobl sydd eisiau gwirfoddoli.



## Cwestiwn 37

Ydych chi'n cytuno mai **Gweinidogion Cymru** ddylai benderfynu ar brif farnwyr a dirprwy-farnwyr pob un o'r **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru?  Ond bod yn rhaid i **Lywydd Tribiwinlysoedd Cymru** gytuno gyda'u dewisiadau?




## Cwestiwn 38

Pwy ddylai benderfynu pwy fydd Llywydd **Tribiwnlys Prisio Cymru**?




## Cwestiwn 39

Pwy ddylai benderfynu ar aelodau a’r prif berson i arwain Tribiwnlys Prisio Cymru?




## Cwestiwn 40

Ai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** ddylai benderfynu ar aelodau paneli apêl **derbyn i ysgolion** a **gwahardd o ysgolion**?



## Cwestiwn 41

Ydych chi’n cytuno na ddylen ni newid y ffordd y mae’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn dewis barnwyr ar gyfer **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru?



## Cwestiwn 42

Sut ddylid dewis Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru?



## Cwestiwn 43

Sut ddylid dewis aelodau **Tribiwnlys Prisio Cymru?**



## Cwestiwn 44

Sut ddylid dewis aelodau o baneli **apêl derbyn i ysgolion** a phaneli **apêl gwahardd o ysgolion**?





# 6. Cwynion am dribiwnlysoedd

Mae llawer iawn o reolau gwahanol a chymhleth ar gyfer cwyno am aelodau o **dribiwnlysoedd datganoledig**.




Mae hynny'n ei gwneud yn anodd i bobl wybod sut i gwyno.



**Cwestiwn 45**

Ydych chi'n cytuno y dylai pob **tribiwnlys datganoledig** yng Nghymru ddelio gyda chwynion yr un fath?





**Cwestiwn 46**


Ydych chi'n cytuno y dylai fod pawb yn gallu cael gwybodaeth am sut i gwyno ar-lein, neu ofyn am gopi papur?



Mewn **tribiwnlysoedd** yng Nghymru a Lloegr, rydych yn aml yn cwyno i'r sefydliad a ddewisodd y barnwr neu'r aelod o'r **tribiwnlys**. Efallai na fydd y sefydliad hwn yn ddigon annibynnol.




Mae rhai **tribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru’n gweithio fel hyn. Nid oes gan dribiwnlysoedd eraill reolau ar sut i gwyno.




Mae cwynion am baneli **derbyn i ysgolion** a **gwahardd o ysgolion** yn mynd i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** neu i **Weinidogion Cymru**.



Credwn y dylai fod ffordd syml a theg i gwyno am unrhyw **dribiwnlys datganoledig.**



## Cwestiwn 47

A ddylai fod gwybodaeth am sut i gwyno am baneli **derbyn i ysgolion** neu **wahardd o ysgolion?** Yn ogystal â gwybodaeth am waith **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**?



## Cwestiwn 48

Ydych chi'n cytuno y dylai pobl fod yn gallu cwyno am beth y mae aelodau **Tribiwnlys Prisio Cymru'n** ei wneud?



## Cwestiwn 49

Ydych chi'n cytuno y dylai pobl allu cwyno am sut mae unrhyw **dribiwnlys datganoledig** yng Nghymru yn cael eu rhedeg?



## Cwestiwn 50

Ydych chi'n cytuno y dylid ond cael un ffordd o gwyno am aelodau a barnwyr **tribiwnlysoedd datganoledig**?



## Cwestiwn 51

Ydych chi'n cytuno mai'r barnwr sy'n arwain y **tribiwnlys** a ddylai ddelio gyda chwynion am aelodau **tribiwnlys datganoledig**?



## Cwestiwn 52

Ydych chi'n cytuno mai sefydliad fel y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol a ddylai ddelio â chwynion am farnwyr sy'n arwain **tribiwnlysoedd datganoledig**?



## Cwestiwn 53

Pwy ddylai edrych mewn i gwynion am sut mae aelodau paneli **derbyn i ysgolion** neu **wahardd o ysgolion** yn ymddwyn?




## Cwestiwn 54

Ydych chi'n cytuno mai Llywydd y **tribiwnlys** a ddylai ddelio gyda chwynion am aelodau o Dribiwnlys Prisio Cymru?



## Cwestiwn 55


Ydych chi'n cytuno mai sefydliad fel y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol a ddylai ddelio gyda chwynion am Lywydd **Tribiwnlys Prisio Cymru**?




Mae gwahanol reolau am bwy sy'n gallu gwneud i aelodau a barnwyr **tribiwnlysoedd** gadw at y rheolau, neu eu diswyddo. Yn aml iawn, sefydliad neu berson sy'n rhan o waith y **tribiwnlys**, neu farnwr, yw hyn. Rydyn ni'n meddwl y dylai fod yn rhywun mwy annibynnol.





Mae angen cyfreithiau i wneud yn siŵr bod gwahanol bobl yn gweithio gyda'i gilydd ar y penderfyniadau hyn i sicrhau eu bod yn deg.





## Cwestiwn 56

A ddylai fod gan **Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru** y pŵer i wneud i aelodau o **dribiwnlysoedd datganoledig** gadw at y rheolau neu eu diswyddo?





## Cwestiwn 57

A ddylai fod gan **Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru** bŵer i wneud i aelodau o Dribiwnlys Prisio Cymru gadw at y rheolau neu eu diswyddo?





## Cwestiwn 58

Dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** gael y pŵer i wneud i aelodau paneli **derbyn i ysgolion** neu **wahardd o ysgolion** gadw at y rheolau, neu eu diswyddo?




## Cwestiwn 59

Ydych chi'n cytuno y dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** wneud i'r barnwyr sy'n arwain **tribiwnlysoedd** gadw at y rheolau neu eu diswyddo? Os yw Gweinidogion Cymru'n cytuno?




### Cwestiwn 60

Ydych chi'n cytuno y dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** wneud i Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gadw at y rheolau neu eu diswyddo? Os yw **Gweinidogion Cymru'n** cytuno?





### Cwestiwn 61

A oes angen unrhyw reolau eraill i wneud yn siwr bod **tribiwnlysoedd** yn dilyn y gyfraith a chadw barnwyr yn annibynol?

## 7. Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** sy'n arwain pob un o'r **tribiwnlysoedd datganoledig.** Mae dwy ran i waith y Llywydd:




1. Gwneud yn siŵr bod **tribiwnlysoedd** Cymru'n rhedeg yn dda



2. Dweud wrth Weinidogion Cymru a Senedd Cymru beth sy'n digwydd gyda'r **tribiwnlysoedd**.



Mae rhai pobl yn meddwl mai barnwr sy'n deall tribiwnlysoedd ddylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** fod.





Ein syniad ni yw dod â'r holl wahanol **dribiwnlysoedd** at ei gilydd yn un **tribiwnlys** mawr. Rydyn ni wedi meddwl sut allai hyn weithio pe bai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'n** gyfrifol am dribiwnlysoedd eraill fel y paneli **derbyn i ysgolion** a **gwahardd o ysgolion.** Gallai hyn wneud paneli'n fwy annibynnol.




### Cwestiwn 62

Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i **Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru** weithio fel barnwr ar bob un o'r **tribiwnlysoedd** y byddai'n gyfrifol amdanynt?





### Cwestiwn 63

Ydych chi'n cytuno y dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** fod yn gyfrifol am y paneli **derbyn i ysgolion** a **gwahardd o ysgolion**?




**Cwestiwn 64**

Ydych chi’n cytuno y dylai **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** fod yn gyfrifol am Dribiwnlys Prisio Cymru?



## 8. Uned Tribiwnlysoedd Cymru


**Uned Tribiwnlysoedd Cymru** yw’r rhan o Lywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am **dribiwnlysoedd Cymru**.



Oherwydd ei bod yn rhan o’r llywodraeth, nid yw’n annibynnol.




Rydyn ni wedi edrych i weld beth sy’n digwydd mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig.



Ein syniad ni yw gwahanu'r Uned Tribiwnlysoedd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn:

- atal barnwyr rhag cael eu rhoi dan bwysau i wneud y penderfyniadau y mae'r llywodraeth eisiau iddynt ei wneud




- dangos i bobl sy'n defnyddio **tribiwnlysoedd** fod rhywun heb gysylltiad â'r llywodraeth yn edrych ar y penderfyniad



- cynnwys barnwyr yn y gwaith o redeg yr Uned Tribiwnlysoedd




### Cwestiwn 65

A ydych yn cytuno na ddylai **Gweinidogion Cymru** redeg **Uned Tribiwnlysoedd Cymru**?

## 9. Cadw barnwyr yn annibynnol




Gall barnwyr ond gwneud penderfyniadau teg os ydyn nhw'n annibynnol.




Mae hyn yn golygu bod ar wahân i'r llywodraeth neu sefydliadau eraill fydd efallai eisiau iddyn nhw wneud penderfyniadau penodol.




Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith ac rydyn ni'n siarad am y peth mewn gwahanol rannau o'r papur hwn.




Yn ôl cyfraith y Deyrnas Unedig, ni ddylai'r llywodraeth geisio newid beth y mae barnwyr yn ei wneud neu benderfynu.




Ond nid yw'r gyfraith yma'n berthnasol i'r holl **dribiwnlysoedd datganoledig** yng Nghymru. Credwn y dylai hyn newid.





## Cwestiwn 66

Ydych chi'n cytuno y dylai'r gyfraith wneud yn siwr bod Gweinidogion Cymru a'r system gyfiawnder yng Nghymru yn cadw y **tribiwnlysoedd datganoledig** yn annibynol rhag Lywodraeth Cymru?




Rhaid i farnwyr yn y Deyrnas Unedig gymryd llw. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw addo bod yn ffyddlon i'r Frenhines, cadw at y gyfraith a gwneud penderfyniadau teg.




Yng Nghymru mae **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'n** cymryd y llw, ond nid oes raid i farnwyr **tribiwnlysoedd** wneud hynny.




## Cwestiwn 67

Ydych chi'n cytuno y dylai barnwyr ac aelodau cyfreithiol eraill o **dribiwnlysoedd datganoledig** gymryd llw i wneud penderfyniadau teg?

## Ystyr y geiriau hyn

**Apêl / apelio** – ffordd o gwyno ac o ofyn i rywun edrych eto ar rywbeth os nad ydych yn hapus gyda phenderfyniad tribiwnlys.

**Penodi** – penderfynu pwy sy'n gwneud rhywbeth.

**Derbyn / proses dderbyn** – gadael i rywun fynd i rywle, er enghraifft i ysgol.

**Pwerau datganoledig** – pethau y gall Senedd Cymru ei wneud, neu benderfyniadau y gall eu cymryd heb orfod gofyn i lywodraeth San Steffan.

**Gwahardd** – gwrthod gadael i rywun wneud rywbeth neu fod yn rhywle, er enghraifft bod mewn ysgol.

**Gwrandawiad** – pan fydd llys neu dribiwnlys yn cyfarfod i edrych ar wybodaeth a phenderfynu beth ddylai ddigwydd.

**Comisiynau'r Gyfraith** – mae'r rhain yn annibynnol ac yn awgrymu newidiadau i wneud cyfreithiau'n well a thecach.

**Tribiwnlysoedd** – grŵp o bobl sy'n setlo dadleuon ac yn edrych ar benderfyniadau cyrff cyhoeddus. Nhw sy'n penderfynu'n derfynol beth ddylai ddigwydd.

**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** – uwch-farnwr sy'n bennaf gyfrifol am dribiwnlysoedd Cymru.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** – sefydliad gyda phwerau cyfreithiol i edrych ar gwynion am wasanaethau cyhoeddus a chwmnïau darparu gofal annibynnol yng Nghymru.

**Gwrandawiad o bell** – pan fydd rhywun yn gallu cymryd rhan mewn achos llys neu dribiwnlys drwy fideo, yn lle gorfod mynd yno.

**Asesiad rhent** – pan fydd eich landlord yn penderfynu pa rent y dylech ei dalu, neu pan fydd yn codi eich rhent.

**Technoleg** – pethau fel cyfrifiaduron sy'n ein helpu i wneud pethau

**Gweinidogion Cymru** – aelodau o Lywodraeth Cymru.

**Uned Tribiwnlysoedd Cymru** – yn helpu tribiwnlysoedd gyda gwaith papur a phethau eraill er mwyn gallu rhedeg yn llyfn.

## Cydnabyddiaeth

Dyluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn gan wasanaeth EasyRead Inspired Services Publishing Ltd. Cyfeirnod ISL175 20. Chwefror 2021.

**www.inspiredservices.org.uk**

Mae'n cwrdd â'r Safon EasyRead Ewropeaidd.

Mae'r gwaith celf yn cynnwys deunydd o'r Inspired EasyRead Collection ac ni chaniateir ei ddefnyddio yn unlle arall heb ganiatâd gan Inspired Services.

**www.inspired.pics**